Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Dinas Caerdydd

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Caerdydd.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae gan y Cyngor 75 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Llafur 39
- Ceidwadwyr 21
- Democratiaid Rhyddfrydol 11
- Propel 3
- Annibynnol 1

Gwariodd y Cyngor £749.1 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, y gwariant uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru.

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

**Ffeithiau allweddol**

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £116.8 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy[2]. Mae hyn yn cyfateb i 15.6% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y 18fed ganran uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[3]

Mae 39 (18%) o'r 214 o'r ardaloedd yn y Ddinas yn rhai yr ystyrir eu bod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru gan wneud y Cyngor yn gydradd drydydd o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[4].

Rhagamcanir y bydd poblogaeth y Ddinas yn cynyddu 5.6% rhwng 2020 a 2040, o 366,311 i 386,861, gan gynnwys gostyngiad o 5.3% yn nifer y plant, cynnydd o 3.6% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 29.2% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd[5].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwella'n barhaus**

  Roedd rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth y Cyngor ateb y gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf anghymwysedig.

[3] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan ddal i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

# Yr hyn a ganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Caerdydd ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol y Cyngor yn gywir a theg ar 28 Hydref 2021.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 yn dda ar y cyfan.
- fe wnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor a gododd o'n gwaith archwilio, gyda'r rheiny'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 19 Hydref 2021.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi canfod unrhyw faterion arwyddocaol.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi cael ei gwblhau.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, fe newidiom ni ddull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae cryn dipyn ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Fe gynhaliom ni brosiect i ategu ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu gwersi a ddysgwyd trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw ysgogi rhywfaint o feddwl, a chyfnewid ymarfer. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddom ni adroddiad cenedlaethol a oedd yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o arsylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ar hynny ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar gyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwella'n barhaus

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ardystio bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau sy'n weddill dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'u harbedwyd gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau cynghorau o'u perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fe wnaethom nodi bod llai o gyfeirio at wybodaeth gymharol am berfformiad er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal gwaith i gasglu peth data ar lefel genedlaethol am y tro. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn dal i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd yn her i gynghorau ei ystyried yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, fe wnaethom archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor Caerdydd, daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn wynebu nifer o risgiau ariannol allweddol a bod ganddo fwlch sylweddol yn ei gyllideb ar gyfer y tymor canolig ond bod ganddo drefniadau i reoli ei gynaliadwyedd ariannol.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, fe wnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru'n eu rhoi ar waith i gefnogi gwaith cynllunio adferiad. Fe wnaethom y gwaith yma ar sail barhaus, gan ddarparu adborth mewn amser real ac yn barhaus lle'r oedd yn briodol. Ein canfyddiadau allweddol oedd bod y Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i adfer ac addasu ei drefniadau democrataidd a llywodraethu yn gynnar yn y pandemig gan felly sicrhau cytundeb ynghylch ei Strategaeth Adfer. Gweithiodd yn galed hefyd i gefnogi trefniadau gweithio gartref, gan

gyflawni lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith staff gyda gostyngiad bach neu ddim gostyngiad o gwbl mewn cynhyrchiant a gostyngiadau mewn absenoldeb oherwydd salwch.

## Moderneiddio’r gweithlu

Cynhaliwyd adolygiad a oedd yn bwrw golwg ar foderneiddio’r gweithlu, gan gysylltu ag ystâd y Cyngor, technoleg ddigidol a chynlluniau ar ôl COVID i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Fe ddarparom ni adborth parhaus ar gyfer y Cyngor trwy gyfarfodydd cyswllt penodol gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Adnoddau ac rydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau i Grŵp Cydgysylltu’r Rhaglen Adfer.

## Arolygiaethau eraill

Fe wnaethom hefyd ystyried canfyddiadau Archwiliadau Sicrwydd a gwblhawyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiadau Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Fe gyhoeddodd AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eu hadolygiad Cenedlaethol ar y cyd o ddefnyddio’r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Fe wnaethant nodi nifer o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol yn eu hadroddiad. Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaeth AGC hefyd gyhoeddi ei hadroddiad trosolwg cenedlaethol o archwiliadau sicrwydd yng Nghymru a Gadewch imi ffynnu, adolygiad cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a threfniadau pontio ar gyfer plant anabl yng Nghymru.

Cynhaliodd Estyn arolygiad diweddar o Wasanaethau Addysg yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2021. Nid yw wedi cyhoeddi adroddiad ar y canfyddiadau eto.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi’r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi peri i gynghorau ostwng gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae’r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Fe wnaethom ganolbwyntio ar sut y mae cynghorau’n diffinio gwasanaethau, y systemau a’r prosesau y maent wedi’u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw’r rhain. Mae’r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn dal i gynyddu ac nid yw cynghorau’n hyderus y gallant barhau i ddarparu’r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub ar y cyfle i adnewyddu, ailgloriannu ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o’r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, fe wnaeth awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu mannau adwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi blaenorol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn effeithio’n andwyol ar

ganol sawl tref yng Nghymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog, gydag un siop ymhob saith ar strydoedd mawr Cymru bellach yn wag, er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiadau gwerth £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt wastad yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r deilliannau lleol gorau, mae angen i bolisïau a threfniadau cydweithio gael eu halinio a'u hintegreiddio, ac mae angen i adnoddau gael eu blaenoriaethu ar ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Y risg a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach o hyd yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi trefnu ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor trwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar y canlynol:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
  - Cynllunio adferiad;
  - Cynlluniau lleihau carbon;
  - Trefniadau hunanasesu;
  - Y sefyllfa ariannol
  - Cydymffurfio â rheolau adeiladu statudol
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. Byddwn yn adeiladu ar ein canfyddiadau o'r Adolygiad o Foderneiddio'r Gweithlu wrth wneud y gwaith yma.
- Archwiliad o adrodd ar wella – fe gyhoeddom ni dystysgrif cydymffurfio ar 22 Hydref 2021 i gadarnhau bod y ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad wedi'i chyflawni.
- Adolygiad dilynol o wasanaethau hamdden – i asesu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadroddiad ar wasanaethau hamdden a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.
- Adolygiad dilynol o reoli gwastraff – adolygiad dilynol i asesu cynnydd y Cyngor o ran datblygu ei strategaeth gwastraff i helpu i leihau gwastraff a chyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.